Annwyl Syr / Madam

Yn dilyn anfon ein sylwadau yn ddiweddar anfonaf mwy o wybodaeth atoch parthed yr Urdd ym Môn.

Yn amgaeedig mae

1. Adroddiad Blynyddol Ynys Môn
2. Adroddiad Blynyddol Cymru
3. Polisi Iaith y Mudiad

Mae'r ddogfennaeth uchod yn dystiolaeth fod y Gymraeg yn fyw ac yn iach ym Môn, mae'n un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'n hanfodol bwysig bod Horizon yn blaengynllunio'r ffaith fod cael mewnfudiad o bron i 10,000 o bobl yn symud yma am gyfnod o 10+ mlynedd yn ergyd i ni fel Mudiad o ran y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn ffynnu ym Môn, gyda mudiadau megis yr Urdd yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau dyfodol a pharhad i'n hiaith fel iaith gymunedol fyw. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc (4-25 oed) yn cael ei amlinellu yn ar adroddiad blynyddol uchod. Rydym wedi gweld twf yn ein haelodaeth am y 6 mlynedd diwethaf, mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn mwynhau'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth! Mae dros 3000 o aelodau ym Môn a dros 50,000 yn Genedlaethol.

Rydym yn cynnal gweithgareddau yn lleol ar yr ynys gan ddefnyddio adnoddau lleol yr Ynys, o ysgolion i ganolfannau hamdden a neuaddau pentref. Rydym yn credu mewn 'prynu'n lleol' er mwyn sicrhau fod ein gwariant yn aros ar yr ynys, gobeithio lle bosib y Bydd Horizon yn defnyddio cwmnïau a busnesau lleol ar gyfer prynu offer a nwyddau lle'n bosib.

Mae ein holl staff sydd yn gweithio ar yr Ynys yn byw ar yr ynys, pobl Môn yn gweithio dros Fôn. Gobeithion y bydd Horizon yn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i drigolion Ynys Môn er budd ein Ynys ni a'n diwylliant ni.

Mae'n rhaid bod Horizon yn annog a chefnogi dysgwyr a mewnfudwyr i ddysgu am ddiwallant a threftadaeth yr Ynys ac mae'n hanfod eu bod yn cyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses cyflwyno i'r gwaith. Dylai Horizon gynnig gwersi Cymraeg i bawb sydd yn dymuno ei ddysgu sydd yn gweithio ar y safle ynghyd a chefnogi Athrawon newydd yn ein canolfannau Iaith Gynradd a hefyd cyllido Canolfan Iaith Uwchradd ar yr Ynys.

Mae croeso i chi gysylltu â mi am fwy o wybodaeth

Cofion

Urdd Gobaith Cymru

Urdd

# URDD GOBAITH CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016-17

urdd.cymru






## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar Eleni | 4–5 |
| Adroddiad y Cadeirydd | 6 |
| Adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro | 7 |
| Adroddiad y Llywydd | 8 |
| Astudiaeth Achos 1 – Caitlin Drake | 9 |
| Gweithgareddau Cymunedol | 10 |
| Adran Gyfathrebu a Datblygu | 10 |
| Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau | 11 |
| Adran Chwaraeon | 11 |
| Astudiaeth Achos 2 – Lauren Richards | 12 |
| Astudiaeth Achos 3 – Morgan Thomas | 13 |
| Gwersyll Glan-llyn | 14 |
| Gwersyll Caerdydd | 14 |
| Gwersyll Llangrannog | 15 |
| Astudiaeth Achos 4 – Marchnata | 16 |
| Astudiaeth Achos 5 – Ethan Williams | 17 |
| Adroddiad y Trysorydd | 18 |
| Noddwyr a Phartneriaid | 19 |
| Ffynonellau Incwm Allanol | 20–21 |
| Gwybodaeth Ariannol | 22–26 |

Urdd







54,943 wedi ymaelodi





Trosiant o £10 miliwn



Dros 48,000 o aelodau yn cystadlu yn yr Eisteddfodau cylch a sir





Dros 90,000 wedi ymweld â'r Eisteddfod



283 aelod o staff







Dros 800 wedi derbyn hyfforddiant gan yr Adran Chwaraeon



39,400 o ddilynwyr ar gyfrifon Twitter yr Urdd







Dros 47,000 wedi aros yn ein Gwersylloedd

## TUDUR DYLAN JONES
## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Mae'n bleser gennyf gael y cyfle i gyflwyno adroddiad blynyddol Urdd Gobaith Cymru. Cafwyd blwyddyn lewyrchus eleni, gyda chyfleon unwaith eto i'n plant a phobl ifanc ddangos eu doniau mewn cymaint o feysydd gwahanol. Mae'r Urdd wedi cynyddu'r nifer o weithgareddau sy'n cael eu cynnig, gyda brwdfrydedd y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n cynnig y cyfleon hyn i'w ganmol yn fawr.**

Gyda Llywodraeth Cymru wedi datgan y bwriad o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae gan yr Urdd ran allweddol i'w chwarae, gydag aelwydydd ac adrannau ym mhob rhan o Gymru. Mae dylanwad yr Urdd yn bellgyrhaeddol, ac yn aml iawn yn anfesuradwy. Mewn oes lle mae angen mesur popeth, a chael tystiolaeth a graffiau i brofi'r hyn a'r llall, rhan fawr o waith y Mudiad yw'r hyn na ellir ei fesur. Faint tybed o'n pobl ifanc ni sydd wedi datblygu diddordeb mewn maes arbennig oherwydd yr Urdd? Faint sydd wedi datblygu hunan hyder oherwydd un cyfle penodol? Faint sydd wedi troi at y Gymraeg oherwydd yr arweiniad y mae'r Mudiad wedi'i roi?



Mae Bwrdd Syr IfanC yn allweddol yn natblygiad yr Urdd, ac wrth ddiolch i Dan Rowbotham am ei arweiniad y llynedd, mae'n bleser gweld sut y mae Siwan Dafydd yn parhau â'r gwaith da gyda'i hegni heintus. Rydym hefyd yn diolch i Sioned Hughes am ei gwaith fel Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod hwn.

***O'r Eisteddfod i chwaraeon, o'r gwersylloedd i waith y maes, mae'r Urdd yn parhau i fod yn fudiad sy'n edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Gobeithiwn y bydd mwy a mwy yn dod gyda ni ar y daith.***





## MAI PARRY ROBERTS
## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO

**Gan edrych yn ôl ar weithgareddau'r flwyddyn, mae'n debyg mai'r cwestiwn pwysicaf i ni fel tîm – boed yn staff cyflogedig, swyddogion neu wirfoddolwyr – yw 'a lwyddwyd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc Cymru?' Wrth edrych ar gynnwys adroddiadau ein gwahanol adrannau, gallwn ymateb yn hyderus drwy ddatgan 'DO!'**



Gallwn ymfalchïo yn ein llwyddiannau, wrth barhau i ystyried a chynllunio ffyrdd apelgar a gwreiddiol i ymestyn ein dylanwad a'n hapêl, fel bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, ac yn ganolog i'n haelodau. Drwy bori drwy'r adroddiad blynyddol hwn cewch flas ar hyd a lled dylanwad yr Urdd.

Mae'r holl arlwy yn cael ei gynnig gan dîm o staff ymroddgar y gwahanol adrannau, ond hefyd drwy gefnogaeth ddiflino cannoedd ar gannoedd o wirfoddolwyr a chefnogwyr yr Urdd. Diolch i bawb sy'n hwyluso'n gwaith – ein gwirfoddolwyr, ein partneriaid, a'n cefnogwyr.

Wrth edrych tuag at ein canmlwyddiant yn 2022 rwy'n falch fod ein byrddau ynghyd â'n partneriaid – yn gefnogwyr, gwirfoddolwyr a rhieni – wedi cael cyfleoedd dros y flwyddyn ddiwethaf i ymgynghori gyda ni ar ein dathliadau, ein dulliau cyfathrebu a'n gweithgareddau wrth i ni weithio tuag at y garreg filltir arbennig hon. Rydym wedi cychwyn paratoi tuag at 2022 ac yn edrych ymlaen at weithio ar ddathliadau a phrosiectau cyffrous gyda'n haelodau i sicrhau Urdd gyfoes ac apelgar i'r dyfodol.

Mae strategaeth y Llywodraeth am Filiwn o Siaradwyr erbyn 2050 yn tanlinellu mor bwysig yw rôl mudiadau fel yr Urdd er mwyn sicrhau ei llwyddiant. Mae'r Urdd wedi cynnig profiadau a chyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg i ieuenctid Cymru ers bron i gan mlynedd ac yn fudiad sydd wedi dylanwadu ar agweddau cenedlaethau o blant a phobl ifanc. Teimlwn yn gryfach nag erioed bod gennym y gallu, yr hygrededd, a'r awch i adeiladu ar ein llwyddiant hyd yma.

***Drwy baratoi at ein dathliad ninnau o'r canmlwyddiant yn 2022, mae'n gliriach fyth bod parhad dylanwad yr Urdd yn allweddol.***

## SIWAN FFLUR DAFYDD
### ADRODDIAD Y LLYWYDD

**Mae'n hwyl, yn addysg, yn waith caled ar adegau – ond yn fwy na dim arall yn bleser ac yn fraint cael bod yn Llywydd yr Urdd. Efallai mai dyna yw profiad pob Llywydd ond does dim dwywaith, y mwya' mae rhywun yn ei gyfrannu, y mwya' mae'n elwa.**



Mae rôl Cadeirydd Bwrdd Syr IfanC a rôl y Llywydd yn un bellach. Doedd hi ddim yn hawdd dilyn yn ôl troed Dan Rowbotham, ond fe ges i flwyddyn o'i gysgodi ac o brofi ei frwdfrydedd a'i egni.

Ym mis Rhagfyr, daeth criw ohonom o bob cwr o Gymru ynghyd ar gyfer cyfarfod preswyl Bwrdd Syr IfanC yn Llangrannog. Y dasg bwysig oedd trafod a llunio Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2017. Gan ei bod yn gyfnod mor brysur i ieuenctid bro'r Eisteddfod, rhwng y perfformio a'r cystadlu (heb sôn am yr arholiadau!), penderfynwyd mai nhw fyddai'n gyfrifol am Neges 2018. Felly aeth criw Bwrdd Syr IfanC ati i benderfynu ar thema – 'Cydraddoldeb' – ac wedyn i drafod a llunio'r Neges.

Wrth ddod yn Llywydd, ro'n i'n awyddus iawn i ehangu'r drafodaeth ar iechyd meddwl. Mae mudiad fel yr Urdd eisoes yn gwneud gwaith gwych yn y maes, ond mae codi ymwybyddiaeth a bod yn glust parod i wrando, yn rôl hynod o bwysig. Dyna oedd un o'r meysydd trafod yng Nghynhadledd Bwrdd Syr IfanC yng Nghaerdydd ym mis Ionawr. Eto cafwyd trafodaeth frwd a barn bendant a chytûn.

Wrth gwrs, mae llawer mwy i ddod. Rwy'n edrych ymlaen at gael cyflwyno'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da gydag Ethan Williams yn y Cynulliad ac ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd. Bydd wythnos yr Eisteddfod ym Mhen-y-bont, yn hwyrach yn y flwyddyn, yn brysur iawn gyda thrafodaethau ar Ewrop, Brexit ac Iechyd Meddwl wedi'u trefnu yn y Tipi ym Mhentre' Mistar Urdd. Byddaf hefyd yn cyflwyno o'r llwyfan, yn cymryd rhan yn y cynadleddau i'r wasg ac yn siarad gyda'r cyfryngau yn ystod yr wythnos. O ran gweddill y flwyddyn, bydd Gŵyl Rygbi yr Urdd a Gemau Cymru yn achlysuron pwysig ac rwy'n edrych ymlaen at gael mynychu.

***Yn olaf hoffwn ddiolch am bob cefnogaeth gan y staff a'r gwirfoddolwyr, am yr hwyl a chyfeillgarwch aelodau Bwrdd Syr IfanC – mae wedi bod yn fraint!***





## "HEB YR URDD FYDDWN I DDIM WEDI CYRRAEDD LLE'R YDW I HEDDIW."
### CAITLIN DRAKE

**Enillydd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod yn Sir y Fflint 2016 oedd Caitlin Angharad Drake o Roslannerchrugog. Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r cystadleuydd mwyaf addawol yng nghategori oed blwyddyn 10 ac o dan 19 oed a Caitlin ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Unawd allan o Sioe Gerdd dan 19 oed.**



Erbyn hyn mae Caitlin yn astudio ar gyfer gradd BA Actio yn Ysgol Ddrama Italia Conti yn Llundain. Er mai astudio actio y mae hi, mae hi'n parhau i ganu ac wedi perfformio fel unawdydd gyda chorau ym Mirmingham ac yn y New Vic Theatre yn Stoke.

Profiad cyntaf Caitlin gyda'r Urdd oedd cystadlu yn y gystadleuaeth lefaru pan oedd yn 6 oed ac o'r eiliad honno, roedd hi'n gwybod mai dyna ble'r oedd hi eisiau bod… ar y llwyfan!

Er iddi gystadlu mewn nifer o gystadlaethau amrywiol ar hyd y blynyddoedd o lefaru i ddawnsio creadigol, canu fel unawdydd ac mewn corau, roedd Caitlin yn 17 oed cyn iddi lwyddo i gyrraedd y llwyfan fel unawdydd.

Meddai, *"Ar ôl i mi drio a thrio sawl tro i gyrraedd y llwyfan, wnes i ddysgu gwers bwysig – s'dim ots faint o amser mae'n cymryd i chi gyrraedd eich nod, os ydych chi'n parhau i drio byddwch yn siŵr o lwyddo!"*

*"Roedd hi'n anrhydedd fawr i dderbyn Ysgoloriaeth yr Eisteddfod ac mae wedi rhoi hwb i fy hyder. Dwi'n hynod o falch o fod wedi cystadlu ar hyd y blynyddoedd achos heb yr Urdd fyddwn i ddim wedi cyrraedd lle'r ydw i heddiw."*

***"Rŵan fy mod yn byw yn Llundain, dwi wir yn gwerthfawrogi'r iaith a'r diwylliant Cymreig ac yn sylweddoli mor bwysig ydyn nhw i mi – maen nhw wedi creu'r amgylchedd gorau i mi ddatblygu fel cantores, actor ac fel person."***






← Caitlin yn mwynhau cwmni rhai o gymeriadau Disney cyn cymryd rhan yng Nghyngerdd Gŵyl Ddewi Disneyland, Paris 2016.

## DAI BRYER & SIÂN ROGERS
*CYFARWYDDWYR GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL*

- Dros 1,000 o ganghennau wedi cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg.
- Dros 350 o glybiau cymunedol i blant a phobl ifanc er mwyn cynnig cyfleoedd cyfrwng Cymraeg cymdeithasol.
- Cynigiwyd dros 400 o achrediadau a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc er mwyn creu arweinwyr y dyfodol.
- Trefnwyd 200 o ddigwyddiadau Eisteddfodol er mwyn dathlu llwyddiannau plant a phobl ifanc.
- Bu dros 400 o bobl ifanc yn rhan o ddigwyddiadau Bwrdd Syr IfanC a Chymraeg Bob Dydd eleni er mwyn clywed ac ymateb i lais pobl ifanc.

**01267 676 642**
**daibryer@urdd.org**

**01678 541 030**
**sianrogers@urdd.org**



## MALI THOMAS
*CYFARWYDDWR ADRAN GYFATHREBU A DATBLYGU*

- 54,943 o blant a phobl ifanc yn ymaelodi gyda'r Urdd.
- Gwefan yr Urdd yn parhau i fod yn adnodd defnyddiol i aelodau, rhieni ac athrawon gyda dros filiwn yn ymweld â'r wefan ac yn ystod y cyfnod o fis cyn yr Eisteddfod bu bron i chwarter miliwn o ymweliadau.
- 39,400 o ddilynwyr ar gyfrifon Twitter yr Urdd.
- Gwelwyd maes byrlymus a lliwgar yn yr Eisteddfod yn Fflint yn dilyn buddsoddiad i'w addurno er mwyn creu cefnlen llawn lliw a llun i'r ŵyl.

**029 2063 5695**
**mali@urdd.org**







## ALED SIÔN
*CYFARWYDDWR ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU*

- Cofrestrwyd dros 48,000 o enwau ar draws Cymru ar gyfer holl gystadlaethau'r Eisteddfodau cylch a sir a chafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn heulwen Sir y Fflint gyda'r nifer uchaf o ymwelwyr ers sawl blwyddyn, dros 90,000.
- Llwyddodd pobl dalgylch Eisteddfod 2016 i gyrraedd eu targed ariannol gan drefnu gweithgareddau amrywiol a chodi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod, yr Urdd a'r iaith Gymraeg, a rhoddwyd croeso twymgalon iawn i bawb wnaeth ymweld â'r Maes.
- Trefnwyd gweithgareddau niferus yn nalgylch Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái er mwyn paratoi ar gyfer Eisteddfod 2017.
- Dechreuwyd ar y gwaith o drefnu Eisteddfod 2018 ar faes y Sioe yn Llanelwedd a llwyddwyd i ail gynnau'r fflam yn Rhanbarth Brycheiniog a Maesyfed!

**01678 541 014**
**eisteddfod@urdd.org**



## GARY LEWIS
*CYFARWYDDWR ADRAN CHWARAEON*

- Bron i 7,000 wedi cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon wythnosol.
- Dros 49,000 wedi cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.
- Dros 1,500 wedi mynychu gweithgareddau teulu megis rownderi min nos, nofio rhiant a phlentyn a rygbi i'r teulu.
- Bu i 16 ar y Cynllun Prentisiaeth gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus a chwech ohonynt yn aros am eu hail flwyddyn.
- Datblygwyd cystadlaethau rygbi traeth ar draws Cymru.
- Cynhaliwyd Gemau Cymru llwyddiannus iawn gydag 11 camp wahanol a 1,200 o gystadleuwyr.
- Datblygwyd cynllun prentis i ardaloedd newydd ar draws Cymru.
- Dros 800 wedi derbyn hyfforddiant gan yr adran chwaraeon.


**029 2063 5686**
**gary@urdd.org**

## “MAE’R HYFFORDDIANT A’R CYMWYSTERAU DW I WEDI EU DERBYN YN GOLYGU MOD I’N LLAWER MWY HYDERUS WRTH FEDDWL AM Y DYFODOL.”

LAUREN RICHARDS

**Pan oedd Lauren Richards o Faesteg, Pen-y-bont, yn dod i ddiwedd ei chyfnod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, doedd hi ddim yn siŵr iawn beth oedd hi am ei wneud nesaf. Er iddi wneud cais i astudio chwaraeon yn y brifysgol, gwelodd fod yr Urdd yn chwilio am brentisiaid i weithio yn yr Adran Chwaraeon a dyma benderfynu mynd amdani.**

Yn ôl Lauren, *“Dw i wastad wedi bod yn berson prysur ac yn mwynhau gweithio felly roedd y cynllun yn gyfle gwych i mi ennill cymwysterau a hyfforddiant tra’n ennill cyflog.”*





Bellach yn 19 oed, dechreuodd diddordeb Lauren ym maes chwaraeon pan oedd yn ifanc a’i phrofiad cyntaf gyda’r Urdd oedd cystadlu mewn cystadleuaeth gymnasteg yn Aberystwyth. Er iddi hi a’i ffrindiau dreulio’r noson cynt yn rhannu straeon arswyd ac yna methu’n lân â chysgu, ennill bu eu hanes y diwrnod canlynol!

Erbyn hyn, fel rhan o’i swydd, mae’n cynnal 2 neu 3 clwb chwaraeon bob dydd sy’n amrywio o glybiau pêl-rwyd, gymnasteg, pêl-droed, rygbi bach a dawns. Yn ogystal â gweithio mewn digwyddiadau cenedlaethol, mae datblygu clybiau cymunedol sy’n cynnig cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc yn rhan bwysig o’r gwaith. Mae Lauren wedi sefydlu 4 clwb cymunedol yn ardal Pen-y-bont ac yn bwriadu datblygu hyn ymhellach yn ystod y misoedd nesaf. Meddai, *“Mae fy ngwaith o ddydd i ddydd yn gyffrous iawn – does dim dau ddiwrnod yr un peth. Dw i’n cael cwrdd ag amrywiaeth o bobl ac yn mwynhau gweithio gyda phlant a phobl ifanc o bob oed – o’r plant bach tair oed yn fy nghlwb Rygbi Bach i’r disgyblion hŷn yn yr ysgol uwchradd yn ystod y sesiynau amser cinio.”*

Wrth feddwl am y profiadau y mae wedi eu cael fel Prentis hyd yma, un sy’n aros yn y cof i Lauren oedd cael cydweithio gydag Undeb Rygbi Cymru mewn twrnamaint 7 bob ochr ym Mhencoed. Mae hi hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gael gweithio yn Eisteddfod yr Urdd pan fydd ei hardal hi yn croesawu’r ŵyl yn 2017.

Ei chyngor i Brentisiaid y dyfodol yw i gymryd pob cyfle y mae’r Urdd yn ei gynnig.

***“Y mwya’ o waith wyt ti’n ei roi i’r Mudiad fel Prentis, y mwya’ y cei di’n ôl. Dw i wedi elwa’n fawr o fy mhrofiadau gyda’r Urdd ac yn dal i ddysgu sgiliau newydd bob dydd. Mae’r hyfforddiant a’r cymwysterau dw i wedi eu derbyn yn golygu mod i’n llawer mwy hyderus wrth feddwl am y dyfodol.”***





## “MAE’R URDD YN CYNNIG CYMAINT O BROFIADAU I BOBL IFANC YM MHOB CWR O GYMRU.”

MORGAN THOMAS


**Gweithgareddau awyr agored sy’n mynd â bryd Morgan Thomas, 22 oed, sy’n wreiddiol o Gaerdydd ac ar fin cychwyn ar gyfnod fel hyfforddai yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn.**



Wedi cwblhau ei addysg yn Ysgol Gyfun Plasmawr, aeth Morgan ymlaen i astudio cwrs BA Addysg Awyr Agored ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Ceir partneriaeth agos rhwng y brifysgol a’r gwersyll yng Nglan-llyn a thra’r oedd yno cafodd Morgan gyfle i ymweld â’r gwersyll fel rhan o’r modiwlau Cymraeg a gynigir fel rhan o’r cwrs.

Bu Morgan hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd yn y de gan fagu profiad mewn sawl agwedd o’r gwaith - o weithio ar gynllun Dug Caeredin i ddysgu sgiliau gwyllt grefft; ac o fynychu canolfannau ieuenctid i weithio ar faes Eisteddfod yr Urdd!

Trwy ei waith gyda Rhys Pinner, Swyddog Datblygu Gwasanaeth Awyr Agored De Cymru, y daeth yn ymwybodol o gynllun hyfforddai’r Urdd,




*“Rhys ddywedodd wrtha i am y cynllun hyfforddai yng Nglan-llyn. Dyna un o’r pethau gwych am yr Urdd - mae’n fudiad sy’n cynnig cymaint o brofiadau i bobl ifanc ym mhob cwr o Gymru ond ar yr un pryd mae pawb yn ’nabod ei gilydd ac yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael yn y gwahanol adrannau er mwyn helpu unigolion i ddatblygu.”*

Bu cais Morgan yn llwyddiannus a bydd yn cychwyn ar ei gyfnod fel hyfforddai ym mis Medi. Dywedodd,

*“Dw i wir yn edrych ymlaen at gael profiadau newydd yng Nglan-llyn. Mae’n gyfle arbennig iawn i fedru gweithio gyda phobl ifanc ac ar yr un pryd cael cymwysterau ffurfiol awyr agored.*

***“Fy ngobaith yw dilyn gyrfa yn y maes yn y dyfodol a byddai’n wych pe byddai modd i mi wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg, mae hynny’n bwysig i fi.”***



## HUW ANTUR EDWARDS
CYFARWYDDWR GWERSYLL YR URDD GLAN-LLYN

— Cafwyd y flwyddyn brysuraf yn hanes y gwersyll, gyda 312 cwrs wedi eu cynnal, a 13,732 o wersyllwyr wedi aros cyfanswm o 28,930 noson yn y gwersyll.

— Bu penodiadau ychwanegol yn y tîm Cynnal a Chadw, sydd wedi arwain at welliannau sylweddol i'r ystafelloedd cysgu ac at wedd gyffredinol y gwersyll.

— Cynhaliwyd Gwersyll Haf llwyddiannus, ac arbrofwyd trwy drefnu Gwersyll Pasg hefyd a brofodd yn llwyddiant mawr.

— Cydweithiwyd gyda Trac Gwerin i gynnal cyrsiau offerynnau gwerin traddodiadol, sef Gwerin lau i ddisgyblion cynradd, a Gwerin Gwallgo' i ddisgyblion oedran uwchradd. Rhoddodd y ddau gwrs brofiadau a hyfforddiant arbennig yn y maes gwerin.

— Parhaodd Gwasanaeth Awyr Agored Glan-llyn i ddatblygu, yn arbennig yn ne Cymru, gyda'r Urdd bellach yn un o'r prif ddarparwyr awyr agored cyfrwng Cymraeg yno. Mae aelod o staff ychwanegol wedi ei phenodi i ddatblygu'r gwaith yma ymhellach, ac mae nifer fawr o blant a phobl ifanc wedi cael profiadau newydd, achrediadau awyr agored a chymryd rhan mewn gweithgareddau o bob math.

**01678 541 000**
**glanllyn@urdd.org**



## TIMOTHY EDWARDS
CYFARWYDDWR GWERSYLL YR URDD CAERDYDD

— Dros 12,000 o wersyllwyr wedi mwynhau cyfnodau preswyl a gweithgareddau cyffrous yn y gwersyll a chyfanswm o dros 16,000 o ymwelwyr yn cael profiadau dinesig gyda'r nod o ddarparu profiad celfyddydol i bob ymwelydd.

— Sefydlwyd partneriaeth newydd rhwng y gwersyll a'r Coleg Cymraeg lle y bu ein Cyfarwyddwr yn diwtor gwadd yn yr Ysgol Fusnes ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Bu'r myfyrwyr israddedig yn gweithio ar brosiect oedd yn cynnig syniadau ar sut i weddnewid darpariaeth arlwyo'r gwersyll.

— Dros 650 o blant lleol wedi mynychu ein gweithgareddau gwyliau dros y flwyddyn, Gŵyl Hwyl a Gŵyl Pres-Hwyl, sy'n dod a'r gwersyll yn fyw i'r gymuned leol.

— Cafwyd buddsoddiad sylweddol yn ein cyfleusterau llety er mwyn cynnal a sicrhau derbyn gradd 4* gan Croeso Cymru.

**029 2063 5678**
**caerdydd@urdd.org**







## LOWRI JONES
CYFARWYDDWR GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

— Croesawyd dros 21,544 o blant a oedd yn aros am gyfystyr o 51,722 o nosweithiau. Roedd hyn yn bosib trwy gymorth dros 5,000 o wirfoddolwyr ac athrawon. Cynhaliwyd gwyliau i dros 300 o deuluoedd, a sesiynau gweithgareddau i dros 7,000 o'r cyhoedd.

— Cafwyd Gwersylloedd JOIO llwyddiannus - Joio Haf, Hydref, Pasg a Chwaraeon ac rydym yn falch iawn o'r cydweithio rhyngom ni a'r Elyrch a'r Scarlets i redeg ein Cwrs Chwaraeon.

— Buom yn llwyddiannus wrth dderbyn grant ariannol gan RCDF o £120,000 ar gyfer prosiect Ardal Antur fydd yn gweld weiren Zip newydd yn dod i'r gwersyll.

— Cynhaliwyd proses dendro ar gyfer cynllun Calon y Gwersyll a chychwynnwyd ar y gwaith ymgynghori a chynllunio.


— Mae'r gwaith uwchraddio wedi parhau gyda bloc cysgu Cilborth yn cael sylw y tro hwn.

— Yn Awst 2016 cynhaliwyd arolwg teuluoedd. Roedd 76% o'r teuluoedd wedi dysgu mwy am ddiwylliant Cymru a'r ardal wledig yn dilyn ymweld â Llangrannog.

**01239 652 140**
**llangrannog@urdd.org**

## GWEDD NEWYDD I FAES EISTEDDFOD YR URDD

**Comisiynwyd y dylunydd Lois Prys i weithio ar brosiect arbennig i chwistrellu gwir deimlad o ŵyl gyfoes i faes Eisteddfod yr Urdd.**





↗ Croeso cynnes yr Eisteddfod



↗ Datblygiad newydd yn 2016 oedd Tipi Syr IfanC – man i bobl ifainc ymlacio a chyfranogi mewn gweithgareddau




↗ Pentre' Mistar Urdd



↗ Y llwyfan berfformio



↗ Llenwi'r maes â lliw




↗ Sicrhau fod arwyddion i'r ymwelwyr i ganfod popeth yn hawdd ar y maes




↗ Denu ymwelwyr i wylio arlwy'r Pafiliwn

Wedi llwyddiant ei gwaith ac adroddiadau cadarnhaol am y dylunio, comisiynwyd Lois eilwaith ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái 2017.





## "PEIDIWCH Â BOD OFN TRIO RHYWBETH NEWYDD A CHYMERWCH FANTAIS O BOB CYFLE Y MAE'R URDD YN EI GYNNIG!"

ETHAN WILLIAMS

**Yn Gadeirydd Fforwm Ieuenctid Ysgol Gyfun Garth Olwg, yn Llysgennad, yn Aelod o Fwrdd Syr IfanC a chynrychiolydd Bwrdd Syr IfanC ar y bwrdd Maes a Chwaraeon ac ar y Panel Cyd-ddyn, mae Ethan Williams yn aelod hynod weithgar o'r Urdd.**



Mae Ethan yn ddisgybl blwyddyn 12 yn Ysgol Gyfun Garth Olwg ym Mhontypridd ac yn mwynhau cyfansoddi a chynhyrchu cerddoriaeth ei hun. Mae'n wirfoddolwr cyson gyda'r Urdd a dywedodd,

*"Dechreuais i wirfoddoli gyntaf gyda'r adran chwaraeon yn hyfforddi. Roeddwn i eisiau dysgu sgiliau angenrheidiol a fyddai o fudd i mi yn hwyrach yn fy mywyd gan gynnwys sgiliau arwain, trefnu a chyfathrebu.*

*"Yn ogystal, ar ôl yr holl gyfleoedd y mae'r Urdd wedi rhoi i mi dros y blynyddoedd, roeddwn i'n methu gwrthod y cyfle i roi rhywbeth yn ôl i'r Mudiad."*

Mae blwyddyn gyffrous o'i flaen eleni gan ei fod yn un o'r rhai sydd wedi eu dewis i fynd ar y daith i Batagonia ym mis Hydref ac, yn dilyn enwebiad gan yr Urdd, mae wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Arwain Cymru 2017 yng nghategori Arweinydd Ifanc y Flwyddyn am ei waith gwirfoddol gyda'r Mudiad.

Wedi cymryd rhan yng nghyfansoddiad Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2017, bydd Ethan hefyd yn cyflwyno'r Neges ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd ac i aelodau'r Cynulliad yn y Senedd.

Teimla fod gweithio gyda phobl ifanc a'u cynrychioli yn ei rôl fel aelod o Fwrdd Syr IfanC wedi bod yn gymorth wrth iddo ddatblygu i fod yn arweinydd hyderus a chefnogol sy'n ceisio ysbrydoli eraill.

Wrth drafod gwirfoddoli gyda'r Urdd, dywedodd,

***"Mae cymaint o gyfleoedd i wirfoddoli gyda'r Urdd – beth bynnag eich gallu neu eich diddordebau. Mae cyfleoedd mewn sawl maes gan gynnwys chwaraeon, ieuenctid, crefft a cherddoriaeth a'r Eisteddfod. Peidiwch â bod ofn trio rhywbeth newydd a chymerwch fantais o bob cyfle mae'r Urdd yn ei gynnig!"***



← Beca ac Ethan – dau o'r criw sydd wedi eu dewis i fynd ar daith Patagonia 2017

## RHEON TOMOS
### ADRODDIAD Y TRYSORYDD

## Rwyf yn hynod o falch o allu adrodd fod canlyniadau ariannol 2016-17 yn hynod o ffafriol unwaith eto.



Fe welwch o'r adroddiad hwn fod gwariant ar weithgaredd o ychydig dan £9.2m (£9.1m yn 2015-16), ond oherwydd bod twf mewn incwm i ychydig dros £10m (£9.6m yn 2015-16) golyga hyn fod cynnydd uwch na'r disgwyl i gronfa arian wrth gefn y mudiad.

Ni fyddai canlyniad cryf fel eleni yn bosib oni bai am ymroddiad clodwiw staff yr Urdd yn ogystal â'r holl wirfoddolwyr o bob cwr o Gymru sydd yn ein cefnogi. Mae'r safon o ddarpariaeth yn y gwaith cymunedol, chwaraeon a'r Eisteddfod yn weladwy i bawb a chafwyd digwyddiadau hynod o lwyddiannus dros y cyfnod. Rhaid hefyd talu teyrnged i'r staff cynorthwyol ar draws y mudiad sydd yn cefnogi ein hymdrechion i gynnal ystod mor eang o weithgareddau.

Rhaid tynnu sylw arbennig i'r cynnydd o dros £170k ychwanegol eleni mewn rhoddion a chymynroddion, hyn yn ychwanegol i gyfraniadau hael iawn y llynedd. Mae'r cyfraniadau hyn, yn ogystal â pherfformiad cadarnhaol holl adrannau'r mudiad yn cadw gwariant o fewn yr amcangyfrifon, wedi golygu fod yr ymddiriedolwyr wedi bod mewn sefyllfa i glustnodi £1m er mwyn i benaethiaid Llangrannog a Glan-llyn fedru rhoi cynlluniau datblygu yn eu lle i wneud gwaith sylweddol er mwyn moderneiddio a gwella'r cyfleusterau. Rydym fel mudiad hefyd yn cymeradwyo ein gwersylloedd am eu gwaith yn denu mwy o wersyllwyr eleni sydd wedi gweld cynnydd o bron i £250k o incwm ychwanegol.

Rydym fel elusen wedi gosod nod o gadw digon o arian wrth gefn i dalu am 6 mis o weithgaredd pe byddai amgylchiadau yn achosi gostyngiad sylweddol mewn incwm. Mae'r arian wrth gefn yn cael ei fuddsoddi a da yw gallu adrodd fod cynnydd o dros £340k yng ngwerth ein cronfa dros gyfnod y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn, yn ogystal â pherfformiad cadarnhaol y flwyddyn, yn golygu ein bod yn nesau at ein targed gwreiddiol hyd yn oed wedi clustnodi symiau sylweddol ar gyfer datblygiadau.

Fel Trysorydd y mudiad hoffwn ddiolch am gefnogaeth barod fy nghyd-ymddiriedolwyr ac ymroddiad aelodau'r Bwrdd Busnes. Diolch hefyd i'r holl gyrff cyhoeddus am eu cefnogaeth mewn amrywiol ffyrdd ac i'r holl noddwyr a charedigion yr Urdd am eu haelioni. Rydym yn mentro i gyfnod prysur a chyffrous ar sawl lefel ac felly trwy fonitro ein gwariant yn gyson edrychwn ymlaen yn hyderus y medrwn roi hwb sylweddol i'r ddarpariaeth er mwyn cynnal amcanion craidd yr Urdd.





## NODDWYR A PHARTNERIAID

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall yr Urdd eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

**Diolchwn i'r sefydliadau canlynol a gefnogodd waith yr Urdd yn ystod y flwyddyn:**

- Airbus
- BBC Radio Cymru
- BT
- Bwydydd Castell Howell
- Chwaraeon Cymru
- Cyfrifwyr Gardners
- Cymdeithas Wil Bryan
- Cymwys am Oes: Ffocws ar Wyddoniaeth (Llywodraeth Cymru)
- Cyngor Cymuned Chwitffordd
- Cyngor Cymuned Treffynnon
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Tref y Fflint
- Cyngor y Celfyddydau
- Gravells
- Gwobr Goffa Gari
- HSBC
- Ifor Williams Trailers
- Integro
- Jones and Whitehead
- Prif Gyfrinfa Talaith Gogledd Cymru Seiri Rhyddion
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- S4C
- UCAC
- Undeb Rygbi Cymru
- Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans
- Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
- Ymddiriedolaeth Jane Hodge
- Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn
- Ysgol Uwchradd y Fflint



**HYWEL WILLIAMS**
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

## FFYNONELLAU INCWM ALLANOL

Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn.

| | £ |
|---|---|
| **Cynigwyd y prif grantiau canlynol** | |
| Llywodraeth Cymru – Hyrwyddo'r Gymraeg | **702,184** |
| Llywodraeth Cymru – Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | **102,904** |
| Llywodraeth Cymru – Prosiect Cymraeg | **67,049** |
| Chwaraeon Cymru – Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol | **234,500** |
| Chwaraeon Cymru – Gemau Cymru | **60,000** |
| Llywodraeth Cymru – Gemau Cymru | **55,000** |
| Undeb Rygbi Cymru | **11,000** |
| Cyngor Llyfrau Cymru – Grant Cylchgronau | **26,000** |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | **13,404** |
| **Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau** | |
| Llywodraeth Cymru | **150,000** |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | **135,138** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Sioeau'r Eisteddfod | **30,000** |

01678 541 010
hywelwilliams@urdd.org





| | £ |
|---|---|
| **Awdurdodau Lleol – gan gynnwys grantiau cefnogi swyddogion ieuenctid** | |
| Dinbych | **46,000** |
| Gwynedd | **35,600** |
| Môn (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Môn) | **31,452** |
| Caerdydd | **30,000** |
| Fflint | **28,500** |
| Caerffili | **23,000** |
| Powys | **14,078** |
| Bro Morgannwg | **10,150** |
| Conwy | **10,000** |
| Wrecsam | **10,000** |
| Caerfyrddin | **9,903** |
| Casnewydd | **8,000** |
| Ceredigion | **7,500** |
| Blaenau Gwent | **6,000** |
| Penfro | **4,000** |
| | |
| Menter Caerdydd | **32,294** |
| Menter Iaith Caerffili | **23,000** |
| **Prif Gymynrhoddion** | |
| Dr Rosslyn Chidgey, Upminster (balans) | **237,459** |
| David Austen Jones, Bangor | **199,196** |
| Thomas Eurgan Davies Llundain/Llandudoch | **66,602** |
| Mary Eiddwen Jenkins, Llanilar | **9,708** |
| Miss Meinwen Parry, Bangor | **5,000** |
| Dewi Watkin Powell | **2,000** |

## GWYBODAETH ARIANNOL

### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfrifon yma yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni, ar 10fed o Hydref 2017 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon llawn gan Dunn & Ellis Cyf., Cyfrifwyr Siartredig a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr






## GWYBODAETH ARIANNOL
### MANTOLEN 31 MAWRTH 2017

| | **2017** |
|---|---|
| | **£** |
| **Asedion Sefydlog** | |
| Eiddo Sylweddol | 13,398,336 |
| Buddsoddion | 3,000,981 |
| | 16,399,317 |
| **Asedion Cyfredol** | |
| Stoc | 40,714 |
| Dyledwyr | 837,512 |
| Buddsoddion | 1,504,063 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 970,367 |
| | 3,352,656 |
| **Credydwyr** | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,259,304) |
| Asedion cyfredol net | 2,093,352 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 18,492,669 |
| **Credydwyr** | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | - |
| | **18,492,669** |
| **Cronfeydd** | |
| Cronfeydd cyfyng | 2,556,492 |
| Cronfeydd Rhydd | 14,138,531 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 1,653,245 |
| Cronfa ail-brisio eiddo | (121,933) |
| Cronfeydd gwaddol | 266,334 |
| **Cronfeydd** | **18,492,669** |

## *GWYBODAETH ARIANNOL*
*INCWM 2016/2017*





| | | £ |
|---|---|---|
| 1 | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,892,808 |
| 2 | Glan-llyn | 1,578,618 |
| 3 | Caerdydd | 731,921 |
| 4 | Incwm o fuddsoddion | 66,817 |
| 5 | Eisteddfod 2016 (ddim yn cynnwys grantiau) | 1,321,352 |
| 6 | Cylchgronau | 56,666 |
| 7 | Aelodaeth | 401,023 |
| 8 | Rhoddion a chymynroddion | 665,403 |
| 9 | Amrywiol | 104,343 |
| 10 | Grantiau (yn cynnwys Chwaraeon ac Eisteddfod) | 1,922,647 |
| 11 | Chwaraeon | 279,564 |
| | **Cyfanswm Incwm 2016/2017:** | **10,021,162** |





## *GWYBODAETH ARIANNOL*
*GWARIANT 2016/2017*




| | | £ |
|---|---|---|
| 1 | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,279,007 |
| 2 | Glan-llyn | 1,670,693 |
| 3 | Caerdydd | 636,365 |
| 4 | Costau elusennol | 1,569,352 |
| 5 | Eisteddfod | 1,885,083 |
| 6 | Cylchgronau | 107,540 |
| 7 | Costau trefn lywodraethol | 114,188 |
| 8 | Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 44,254 |
| 9 | Chwaraeon | 878,599 |
| | **Cyfanswm Gwariant 2016/2017:** | **9,185,081** |

Dosrannwyd costau cefnogi dros y gweithgareddau elusennol pro rata ar sail y ganran incwm a dderbyniwyd gan yr adrannau.

## GWYBODAETH ARIANNOL
### CANLYNIAD Y FLWYDDYN

| | 2017 £ |
|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 836,081 |
| Gweddill/(Diffyg) ar werthu asedau a buddsoddion | 14,227 |
| | **850,308** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 326,426 |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio eiddo – heb eu realeiddio | 15,427 |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn cronfeydd** | **1,192,161** |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2016 | 17,300,508 |
| Dad-wneud amhariad hanesyddol | – |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2017** | **18,492,669** |

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £8,704,122 o gronfeydd rhydd, £1,307,330 o gronfeydd clwm a £9,710 o gronfeydd gwaddol.

Mae'r cynnydd net am y flwyddyn o £1,192,161 (ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd) yn cynnwys gweddill o £1,423,086 ar gronfeydd rhydd a diffyg o £230,925 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.